**Cydymffurfiaeth y Tribiwnlys Tir Amaethyddol gyda'r Safonau**
**Mawrth 2017**

**Cynhyrchwyd yn unol â gofynion**
**Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) 2016**

## Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

- Rydym wedi darparu gohebiaeth i staff am ymateb i ohebiaeth, ateb y ffôn a negeseuon e-bost.

- Mae gennym neges ar ein llinell gymorth sy'n cynnig gwasanaeth Cymraeg i'n cwsmeriaid.

- Rydym wedi sicrhau bod staff yn cynnig trosglwyddo galwad i siaradwr Cymraeg wrth gysylltu â'r Tribiwnlys (os nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg eu hunain).

- Rydym wedi darparu geiriad i staff i'w gynnwys mewn templedi llythyr, gan gynnig cyfle i gwsmeriaid ofyn am ohebiaeth yn Gymraeg yn y dyfodol.

- Bydd yr holl ddogfennau a gynhyrchir ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog, gan gynnwys ffurflenni cais a chanllawiau.

- Mae bob tudalen ar ein gwefan yn ddwyieithog.

## Safonau Llunio Polisi

- Tra arfer pwerau statudol y Tribiwnlys, byddwn yn ystyried effaith ein penderfyniadau gweithredol ar gyflenwi ein gwasanaethau trwy'r Gymraeg.

## Safonau Cadw Cofnodion

- Mae Hysbysiad Cydymffurfio y Tribiwnlys (sydd yn manylu ar y Safonau Cyflenwi Gwasanaeth, Llunio Polisi, a Chadw Cofnodion y mae'n rhaid i'r Tribiwnlys gydymffurfio â hwy) wedi'i gyhoeddi ar wefan y Tribiwnlys.

- Byddwn yn cadw cofnod o nifer y cwynion a dderbyniwn mewn perthynas â chydymffurfio â'r Safonau a byddwn yn adrodd yn ôl i Gomisiynydd y Gymraeg yn flynyddol.

- Byddwn yn darparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â chydymffurfedd y Tribiwnlys â'r Safonau yr ydym o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.